

# Gwaith hyfryd iawn a melys yw

## Caneuon Ffydd: Rhif 18

---

---

Gwaith hyfryd iawn a melys yw  
moliannu d'enw di, O Dduw;  
sôn am dy gariad fore glas,  
a'r nos am wirioneddau gras.

Melys yw dydd y Saboth llon,  
na flined gofal byd fy mron,  
ond boed fy nghalon i mewn hwyl  
fel telyn Dafydd ar yr ŵyl.

Yn Nuw fy nghalon lawenha,  
bendithio'i waith a'i air a wna;  
mor hardd yw gwaith dy ras, O Dduw,  
a'th gyngor di, mor ddfwn yw.

Mae gwir lawenydd ger dy fron  
yn ffrydiau pur i lonni 'mron;  
ond mi gaf lawn ogoniant fry  
pan buro gras fy nghalon i.

ISAAC WATTS, 1674–1748  
*cyf.* DAFYDD JONES, 1711–77

### MYFYRDOD

Faint ohonom ni sydd yn mynd i orfoledd wrth sôn am waith? Gwn am lawer o bobl na allant sôn am fawr o ddim byd arall! Yn gyffredinol, peth digon diflas yw clywed pobl eraill yn sôn am waith. Ond sonia'n hemynydd ni yma am waith gwahanol iawn, sef y 'Gwaith hyfryd iawn a melys' sydd gennym i gyd fel credinwyr: 'moliannu d'enw di, O Dduw'. Cyfieithiad yw'r emyn hwn o un Isaac Watts: 'Sweet is the work, my God and King'. Fe gyfieithodd Dafydd Jones o Gaio yr oll o'r bron o waith Watts i'r Gymraeg a daethpwyd i'w adnabod hefyd fel 'Dafydd Jones, cyfieithydd Watts'. Mae John Thickers (*Emynau a'u Hawduriaid*) yn rhyfeddu iddo gael amser o gwbl i ffermio! Gwaith hyfryd iawn a melys yn

wir ganddo oedd darparu caneuon mawl ar gyfer ei gyd-Gymry.

Ond beth yn union mae'r gwaith hwn yn ei olygu, neu beth yn wir yw 'mawl'? Soniodd rhywun mai ffydd wedi ei gosod ar gân ydy mawl, a'i fod yn mynegi'n hyder mewn Duw daionus a chariadus, a bod ein mawl yn datgan hynny wrth bawb o'n cwmpas. Mae gwaith yn rhywbeth y mae'n rhaid i'r rhan fwyaf ohonom ei wynebu; sut bynnag hwyliâu sydd arnom ni, allwn ni mo'i esgeuluso. Felly hefyd gyda'r gwaith hyfryd hwn o foliannu Duw; ni ddylai ein mawl ddibynnu ar ein teimladau ac ni ddylai ein horiogrwydd effeithio dim arno. Gwaith i ymroi iddo yn y bore ac yn y nos ydyw fel ei gilydd, medd yr emynydd, ac yn arbennig felly ar ddydd yr Arglwydd. Dyna waith penodedig y dydd hwnnw. Nid yw'r emynydd am i ddim ddod ar draws y gwaith o foliannu Duw ar y dydd hwnnw – boed yn ofal am bethau eraill neu yn ddiffyg awydd: 'ond boed fy nghalon i mewn hwyl fel telyn Dafydd ar yr ŵyl'.

Wrth ganu caneuon fel hyn sydd yn llawn athrawiaeth ac efengyl yr ydym yn rhoi mynegiant i wirionedd yr hyn mae Duw wedi ei ddweud a'i wneud. Yn datgan mor fawr a daionus a graslon yw Duw a'r hyn mae wedi ei gyflawni: 'mor hardd yw gwaith dy ras, o Dduw'. Dathlwn, nid yn unig yr hyn a wnaeth yn y gorffennol, ond yr hyn y mae'n parhau i'w wneud yn y presennol a'r hyn y bwriada ei wneud yn y dyfodol hefyd – pan 'gaf lawn ogoniant fry pan buro gras fy nghalon i'. Canwn, felly, am ei iachawdwriaeth yn y gorffennol, ei arglwyddiaeth drosom yn y presennol, a dyfodiad ei Deyrnas yn ei chyflawnder yn y dyfodol. Wrth ddatgan hyn ar gân, yr ydym yn troi'n broffwydi bob un ohonom ac yn cynorthwyo yn y gwaith o ddwyn i fod yr hyn mae Duw wedi ei addo a'i gynllunio. Dyma pam, mewn gwirionedd, na ddylai dim, byth, gael cyfle i ddisodli'r gwaith hyfryd hwn o roi mawl i Dduw oddi fewn i Eglwys Crist.

## **GWEDDI**

O Dad, tro ein calonnau at y gwaith hyfryd a melys hwn o ganu a rhoddi mawl i'th enw di. Helpa ni i ddeall arwyddocâd a phwysigrwydd y gwaith hwn oddi fewn i'th Eglwys. Yn enw Iesu, Amen.